

Catalyst Cymru: Broadening Horizons Ehangu eich Rhwydweithiau – Trefnu ymweliad 2023 Canllawiau

CYFLWYNIAD

Fel rhan o brosiect [Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion](#), rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid prosiect;

- Anabledd Cymru,
- Pride Cymru
- Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST)

i hwyluso ymweliadau ar gyfer eu haelod-fudiadau/gwirfoddolwyr.

NODAU

Nod yr ymweliadau yw rhoi cyfle i ddechrau/datblygu gwaith sy'n ymwneud â dod yn fudiad mwy amrywiol a chynhwysol. Gallai hyn gynnwys cyrraedd cynulleidfaoedd a chefnogwyr newydd a denu gwirfoddolwyr, aelodau bwrdd a staff newydd er mwyn sicrhau bod ein treftadaeth ar gael i bawb.

Y nod yw i fudiadau treftadaeth gyd-ddylunio rhaglen berthnasol o weithgareddau gyda'r grŵp sy'n ymweld. Gallai enghreifftiau posibl gynnwys taith dywysedig neu gyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu/gwirfoddoli. Gallai'r rhain hefyd fod yn gyfleoedd ar-lein, e.e. teithiau rhithwir.

CYMHWYSEDD

I fod yn gymwys i drefnu ymweliad, rhaid i fudiadau:

- Fod â dibenion elusennol. Mae mudiadau cymwys yn cynnwys: Grwpiau cymunedol (a gyfansoddwyd), elusennau cofrestredig, e.e. Ymddiriedolaethau, Mudiadau Corfforedig Elusennol (CIOs), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CICs) a Chymdeithasau Budd Cymunedol. Noder: Rhaid i CICs fod yn gyfyngedig trwy warant i fod yn gymwys.
- Cael o leiaf tri ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr nad ydynt yn perthyn, yn unol ag arferion gorau a gofynion y Comisiwn Elusennau.

- Cael y canlynol yn eu lle:

Polisi Cyfle Cyfartal
Polisi Iechyd a Diogelwch
Polisi Diogelu
Polisi Gwirfoddoli
Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

- Cyn yr ymweliad, bydd angen i chi ddarparu copi o'r Asesiad Risg ar gyfer unrhyw weithgareddau (gan gynnwys arweinwyr dynodedig ar gyfer y gweithgareddau)

- Ffocws ar un neu ragor o'r meysydd Treftadaeth canlynol:

Treftadaeth Gymunedol e.e. prosiect sy'n canolbwyntio ar ardal leol er mwyn gwella/adfer/dehongli'r amgylchedd naturiol neu adeiledig

Diwylliannau ac Atgofion e.e. dathlu diwylliannau amrywiol drwy brosiectau celfyddydol/hanes llafar

Tirweddau a Threftadaeth Naturiol e.e. dathlu diwylliannau amrywiol drwy brosiectau celfyddydol/hanes llafar

Diwydiannol, Morol a Thrafnidiaeth

Casgliadau (gan gynnwys Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai)

- Cael cefnogaeth y mudiad i ymrwymo'r amser sydd ei angen i gynllunio a threfnu ymweliad. I helpu i ddangos hyn, mae angen i fanylion cyswllt cynrychiolwyr o'r bwrdd ymddiriedolwyr a'r tîm staff (fel y bo'n briodol) gael eu nodi ar y ffurflen gais.
- Dylai un o'r cynrychiolwyr hyn allu ymrwymo i ddod i ddigwyddiad ar-lein, dwy awr o hyd ym mis Chwefror/Mawrth 2023 i gwrdd â chynrychiolwyr o Anabledd Cymru, Pride Cymru ac EYST a rhoi cyflwyniad ar waith eich mudiad.

SUT I YMGEISIO

Ar hyn o bryd, mae gennym ni'r capasiti i weithio gydag 21 o fudiadau treftadaeth i hwyluso ymweliadau.

Os oes mwy eisiau cymryd rhan, byddwn ni hefyd yn ystyried lleoliad ymgeiswyr a'r math o dreftadaeth er mwyn sicrhau cynrychiolaeth amrywiol.

Noder na all Catalydd Cymru sicrhau y bydd yr holl fudiadau sy'n gymwys yn cael eu paru â grŵp sy'n ymweld.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn trefnu ymweliad (a allai hefyd fod yn gyfle ar-lein), byddai'r broses yn cynnwys:

1. Llenwi'r Ffurflen Mynegi Diddordeb. I gofrestru eich diddordeb mewn cymryd rhan a chael ffurflen Mynegi Diddordeb wedi'i hanfon atoch, cysylltwch â Siobhan Hayward, Swyddog Catalydd Cymru shayward@wcva.cymru
2. Dod i ddigwyddiad ar-lein, dwy awr o hyd ym mis Chwefror/Mawrth 2023 i gwrdd â chynrychiolwyr o Anabledd Cymru, Pride Cymru ac EYST i gyflwyno gwaith eich mudiad.
3. Ar ôl y digwyddiad, byddech chi'n cael eich paru ag un o'r mudiadau partner a fydd yn hwyluso ymweliad cychwynnol rhwng eich mudiad ac un o'r aelod-fudiadau/gwirfoddolwyr.

AMSERLEN

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Ffurflenni Mynegi Diddordeb - 6 Chwefror 2023

Cyfarfod Cymeradwyo'r Grŵp Cyngori 16 Chwefror 2023

Digwyddiad rhagarweiniol 27 Chwefror 2023

Digwyddiad rhagarweiniol 2 Mawrth 2023

Digwyddiad rhagarweiniol 9 Mawrth 2023

Cael eich paru â mudiad partner
(EYST, Anabledd Cymru, Pride Cymru)
2023 Mawrth/Ebrill

Ymweliadau wedi'u trefnu Ebrill – Rhagfyr
2023

Bydd mudiadau sy'n trefnu ymweliadau hefyd yn gymwys i wneud grant am Grant Cymunedol rhwng £500 - £3,000. Gall y grantiau gefnogi camau i'ch galluogi chi i ddod yn fudiad mwy cynhwysol.

Bydd y grant yn agor ar ddechrau 2023.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol cyn i chi lenwi'r ffurflen, cysylltwch â Siobhan Hayward shayward@wcva.cymru